Treuliwyd bore diddorol iawn ar Fai 25ain yn y Fridfa Blanhigion yng Ngogerddan. Cafwyd gwahoddiad i fynd yno am ei bod yn ddydd agored a channoedd o blant yn bwriadu ymweld a'r lle. Yr oedd yn agoriad llygad i weld y gwaith sy'n mynd ymlaen yno a chafwyd cyfle i fynd o gwmpas y Fridfa ar dractor a threilar. Aeth yr amser yn rhy fuan o lawer a ninnau heb weld y cyfan ond cawsom wahoddiad cynnes i ymweld a'r Fridfa eto yn y dyfodol agos.

Nos Wener Mai 27ain chwaraewyd gem bel-droed rhwng Llanilar a Ffostrasol ar gae pel-droed y Penrhyn. Gem am gwpan "Ansells" oedd hon ac yn ystod hanner amser cafwyd y rownd derfynol o gicio ceisiau cosb i fechgyn ysgol y Penrhyn. Cystadleuaeth a drefnwyd gan Glwb pel-droed Penrhyn-coch oedd hon ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddynt am gefnogi'r bechgyn ifanc yma sydd yn nhim yr ysgol. Y pedwar bachgen a ddaeth i'r rownd derfynol oedd Mark Hemingway, Huw Evans, Dyfed Evans a Gari Lewis. Wedi ymdrech deg ar ran y pedwar i geisio cael y bel heibio i'r golwr medrus, Mr Mel Evans, Mark Hemingway oedd pencampwr y noson. Cyflwynwyd tlws hardd iddo a chafodd y tri arall hefyd dlws yr un am gyrraedd y rownd derfynol. Deallwn mai rhodd Mr John Jones (neu Jac i drigolion y Penrhyn) oedd y tlws i'r buddugol a diolchwn o waelod calon iddo am ei haelioni. Dymuno aros yn anhysbys mae rhoddwr y tri thlws arall ond yr un i'w ein diolch iddo yntau hefyd.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mrs Llywela Williams, athrawes y dosbarth derbyn, a'i gwr Mr Elwyn Williams. Dewiswyd hwy yn ddirprwy faer a maeres tref Aberystwyth yn ddiweddar ac estynnwn ein dymuniadau gorau iddynt.

Cynhelir Ffair Haf yr ysgol ar nos Wener Mehefin 10fed ac y mae cryn brysurdeb yma y dyddiau hyn yn paratoi at y noson honno.